



Overview & Scrutiny

Annual Report

Trosolwg a Chraffu  
Adroddiad Blynyddol

**2020/21**

## Cynnwys

Tudalen	Teitl
3	Cyflwyniad gan Arweinydd y Cyngor
4	Safbwynt y Prif Weithredwr
5 - 6	Craffu yn ystod ymateb Covid
7	Gweithredu'r Newidiadau i'r strwythur Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
8 - 9	Y Broses "Galw i Mewn"
10 - 11	Aelodaeth y Pwyllgor
12 - 17	Testunau a ystyrir gan bob Pwyllgor
18	Cymorth Gan Swyddogion Trosolwg a Chraffu

Dyddiad	Cymeradwywyd Gan	Fersiwn
	Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd	Drafft
	Cyngor Sir y Fflint	Terfynol



## CYFLWYNIAD GAN ARWEINYDD Y CYNGOR

Yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor 2019, dywedais y byddai strwythur pwyllgorau yn cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn. Roedd yr adolygiad hwnnw yn cynnwys nifer y pwyllgorau, eu haelodaeth, rôl cyfetholwyr a swyddogaethau a chylch gorchwyl pwyllgorau.

Roedd y gwaith wedi'i gynnal drwy gonsensws, mewn sawl cyfarfod Arweinydd Grŵp ble cefnogwyd ni gan y swyddogion statudol. Roedd yr argymhellion o'r adolygiad wedi eu hystyried a'u cefnogi gan y Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd yn eu cyfarfod ym mis Ionawr ac yna gan y Cyngor ym mis Chwefror.

Dylai'r canlyniadau fod wedi cael eu gweithredu o'r Cyfarfod Blynyddol 2020, ym mis Mai. Fodd bynnag, roedd y pandemig yn golygu bod yna saib rhwng mis Chwefror a chynnal ein Cyfarfod Blynyddol ym mis Medi. Bryd hynny, roeddem yn gallu gweithredu'r newidiadau arfaethedig.

Rydym yn credu bod y strwythur newydd o bum pwyllgor Trosolwg a Chraffu o ddeuddeg aelod yr un wedi gweithio'n dda ers iddo ddechrau ym mis Medi 2020. Am gyfnod byr, rhwng Mai a Medi, roedd y Bwrdd Adfer, oedd yn adnodd trawsbleidiol ar gyfer gwneud penderfyniadau ac elfennau craffu wedi disodli ein prosesau craffu ffurfiol. Roedd hyn yn ddull arloesol, oedd yn angenrheidiol. Mae'n ein rhoi mewn lle da i aildechrau ein prosesau ffurfiol yn yr hydref. Yn ogystal, roeddwn yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd iawn gyda fy nghyd Arweinwyr Grŵp yn ystod y cyfnod ymateb. Roeddent yn darparu bwrdd seinio amhrisiadwy ar adeg pan oedd prosesau democraidd eraill ar encil.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sy'n ymwneud â'r swyddogaeth Trosolwg a Chraffu, boed yn Aelodau, Cyfranogwyr neu'n cefnogi tîm y swyddfa, am y gwaith a wneir ganddynt i sicrhau bod Trosolwg a Chraffu yn Sir y Fflint yn parhau i ffynnu ac yn ychwanegu gwerth.

**Cynghorydd Ian Roberts**

Arweinydd y Cyngor

## SAFBWYNT Y PRIF WEITHREDWR



Mae'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu yn draddodiadol wedi cynnwys rhagair a ysgrifennwyd gan Arweinydd y Cyngor a chyfraniad 'safbwynt' gan y Prif Weithredwr.

Bydd Aelodau yn ymwybodol fy mod wedi bod yn Sir y Fflint ac mewn amrywiol swyddi ers 2003. Yn ystod y cyfnod hwnnw rwyf wedi cyfrannu at nifer o gyfarfodydd Trosolwg a Chraffu, yn bennaf drwy fynychu Pwyllgor Craffu yn cynnwys Tai, yr Amgylchedd, Rheoli Gwastraff a Phrifyrdd ac yn fwy diweddar, Cymuned, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Tai ac Asedau ac Adnoddau Corfforaethol drwy fy rôl yn Rheoli asedau tir y Cyngor a Rhaglen Gyfalaf.

Rwyf bob amser wedi cydnabod yr angen i'r strwythur Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fod yn ymatebol i anghenion y Cyngor. Pan mae yna bryder nad yw'n addas, rydym wedi adolygu'r strwythur ac wedi gwneud newidiadau mewn ymateb fel y rhai a gynhaliwyd yn 2002, 2005, 2010 a 2015, mae patrwm pum mlynedd wedi datblygu. Roedd yr adolygiad mwyaf diweddar yn darparu'r strwythur presennol 2020. Roedd yn ymddangos bod Sir y Fflint yn cynnwys y nifer fwyaf o bwyllgorau trosolwg a chraffu yng Nghymru a nifer fwy o Aelodau ar y pwyllgorau hynny. Gyda phump pwyllgor o 12 Aelod yr un, rydym yn credu bod y strwythur bellach yn gywir ar gyfer Sir y Fflint am y tro.

Nid yw sefydliadau mawr fel ni byth yn gallu bod yn llonydd; maent yn datblygu'n gyson. Wrth i newidiadau ddigwydd, mae'n bosibl y byddwn angen gwneud newidiadau pellach i'n strwythur pwyllgor Trosolwg a Chraffu i sicrhau ei fod yn parhau'n ymatebol i anghenion y Cyngor, gyda'r hyblygrwydd i ddelio gyda pha bynnag faterion sy'n codi.

Mae'n bwysig fod gennym swyddogaeth Drosolwg a Chraffu drwyadl fel rhan o drefniadau gweithredu'r Cyngor. Mae'r cyfraniad a wnaed dros y deng mlynedd ddiwethaf wedi bod yn bwysig i ddylanwadu a herio'n ddylanwadol a heb y cyfraniad hwn gan Aelodau'r Pwyllgor craffu ni fyddem wedi cyflawni beth sydd gennym fel Cyngor drwy gydol rhai o adegau mwyaf heriol yn ei hanes.

Mae Tîm y Prif Swyddog a minnau wedi ymrwymo i sicrhau y cefnogir Aelodau'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i barhau mor effeithiol ag y maent bob amser wedi bod.

**Neal Cockerton,**

**Prif Weithredwr**

## CRAFFU YN YSTOD YMATEB COVID

Roedd y pandemig Coronafeirws wedi golygu ei bod yn ofynnol i bobl weithio gartref ble bynnag bo'n bosibl. Mewn amgylchiadau o'r fath, nid oedd yn bosibl cynnal y broses ddemocrataidd. Tra bod trefniadau yn cael eu gwneud i gynnal 'Cyfarfodydd Mynychu o Bell' oedd yn golygu gosod meddalwedd ar lpadau a hyfforddi Aelodau ar gyfer ei ddefnyddio, roeddem hefyd yn ceisio cynnal elfen o'r broses ddemocrataidd i wneud penderfyniadau.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu pwerau argyfwng o dan reoliadau coronafeirws 2020 i ganiatáu i gyfarfodydd gael eu cynnal yn gyfan gwbl dros y we. Roedd y dull hwn mor llwyddiannus fel bod darpariaeth wedi'i chynnwys yn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

### **Penderfyniadau Aelod Cabinet Unigol**

Ar ddechrau'r pandemig o fis Mawrth 2020 roedd angen gohirio trefniadau craffu am ychydig wythnosau tra bod trefniadau gweithio o bell yn cael eu trefnu a'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r angen uniongyrchol am ymateb gweithredol.

Roedd cynnal rhywfaint o drefniadau Craffu ar ddechrau'r pandemig yn bwysig, felly cafodd trefn gwneud penderfyniadau 'Aelod Cabinet unigol' ar sail dros dro ei gyflwyno. Er mwyn cydymffurfio â chanllawiau'r Llywodraeth a ddyluniwyd i oedi lledaeniad Covid-19, roedd y dirprwyiaethau canlynol i Aelodau'r Cabinet wedi eu rhoi ar waith:

- Gall Aelodau'r Cabinet benderfynu ar unrhyw fater a benderfynir fel arfer gan y Cabinet yn gweithredu'n gyfunol yn ddarostyngedig i gydymffurfio â'r amodau canlynol
  - a. bod y penderfyniad i'w wneud yn ddigon brys y byddai'n rhagfarnu'r Cyngor ac/neu les y cyhoedd os na wneir; a
  - b. bod y penderfyniad a wneir yn dod o fewn Meysydd Cyfrifoldeb i'r Aelod Cabinet hwnnw fel y nodwyd yn Atodiad 1; a
  - c. bod yr Aelod Cabinet wedi ymgynghori gyda'r bobl ganlynol
    - i. Arweinydd y Cyngor neu Ddirprwy Arweinydd y Cyngor
    - ii. unrhyw Aelod Cabinet arall ble gall y penderfyniad effeithio ar eu Maes Cyfrifoldeb;
    - iii. y Prif Weithredwr ac unrhyw Brif Swyddog neu Swyddog Statudol perthnasol

Yn y lle cyntaf, roedd y Swyddog perthnasol yn paratoi adroddiad a anfonwyd at Aelod Cabinet perthnasol, Arweinydd y Cyngor, y Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau a'r Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol. Byddai Hwylusydd/ymgyngorydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu priodol yna'n cysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor hwnnw i geisio eu barn ar yr adroddiad.

Cyn gwneud penderfyniad, drwy gynhadledd dros y ffôn, yn unol â'r Cynllun dirprwyo, dylai'r Aelod Cabinet perthnasol gymryd i ystyriaeth y cyngor gan holl Swyddogion perthnasol y Cyngor ac Aelodau Cabinet eraill ble bo'n briodol yn ogystal â barn Aelodau eraill o'r Cyngor os mynegir mewn perthynas â'r penderfyniad bwriedig.

Yna byddai Pennaeth y Gwasanaethau Democraataidd yn rhoi copi o'r ffurflen a lofnodwyd i Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol a Chofnod o'r Penderfyniad wedi'i gyhoeddi ar y wefan a'i anfon at holl Aelodau o'r Cyngor. Gall y penderfyniad gael ei weithredu ar ddiwedd pump diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r Cofnod o'r Penderfyniad.

### **Cyfarfodydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Dros y We**

Er mwyn adfer elfennau o wneud penderfyniadau democraataidd tra'n parhau i arsylwi arferion diogel, fel cadw pellter cymdeithasol, gwnaethom benderfynu cynnal cyfarfodydd cysylltu-o-bell, yn defnyddio meddalwedd Webex.

Ar ôl gosod meddalwedd Webex ar ddyfeisiau electronig yr Aelodau i gyd a darparu hyfforddiant i bob Aelod, cynhaliwyd cyfarfodydd Pwyllgor Trosolwg a chraffu cysylltu-o-bell gyntaf ym mis Medi 2020 drwy Webex.

Darparwyd arweiniad i'r Aelodau i gyd ar ymddygiad mewn cyfarfodydd cysylltu-o-bell, oedd yn rhoi manylion ar sut y dylai Aelodau nodi y dymument siarad, sut y byddai'r Cadeirydd yn annerch Swyddogion ac Aelodau yn y cyfarfod ac egluro o dro i dro y byddai'r swyddog yn dweud y byddai'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion i gynorthwyo'r Pwyllgor.

Roedd y canllawiau hefyd yn egluro sut y byddai pleidleisio yn digwydd mewn cyfarfodydd cysylltu-o-bell, yn egluro os a phan fyddai pleidlais yn cael ei chynnal, byddai'r Cadeirydd yn egluro mai ond y rhai oedd yn gwrthod y cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal fyddai angen nodi, yn defnyddio'r swyddogaeth sgwrs. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os byddai angen pleidlais mwy ffurfiol, byddai hyn drwy alw cofrestr – ble gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae'n dymuno pleidleisio.

Mae pob cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor gyda recordiad o'r cyfarfod hefyd ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar wefan y Cyngor. Mae hwn wedi bod yn fudd cadarnhaol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, gan ei fod yn caniatu i aelodau'r wasg a'r cyhoedd weld cyfarfodydd Pwyllgor mewn amser real gyda gallu gweld recordiadau ar unrhyw amser ar wefan y Cyngor.

Roedd cynnal cyfarfodydd cysylltu-o-bell yn brofiad newydd i holl Swyddogion ac Aelodau a gofynnwyd i'r Aelodau fod yn amyneddgar tra bod Swyddogion yn gweithio tuag at adfer trefn gwneud penderfyniadau democraataidd llawn. Mae Cadeiryddion a holl Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi croesawu cyfarfodydd cysylltu-o-bell, gan sicrhau profiad cadarnhaol i bawb dan sylw. Bydd y profiad yn bendant yn llywio ein polisi cyfarfodydd mewn amrywiol leoliadau.

## Gweithredu'r Newidiadau i'r strwythur Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Yn yr Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu diwethaf, roeddem yn adrodd ar Adolygiad y Pwyllgor a gynhaliwyd yn ystod 2019. Roedd yr adolygiad wedi'i gynnal gan yr Arweinydd, oedd yn cyfeirio at yr angen amdano yng Nghyfarfod Blynyddol 2019.

Ar y dechrau, roeddem wedi cynnal ymchwil gyda phrif gynghorau eraill yng Nghymru a gwrandao ar farn Aelodau a Swyddogion. Roedd hyn yn ein galluogi i gwmpasu'r adolygiad a gynhaliwyd drwy gyfarfodydd arweinwyr grŵp gwleidyddol, ei dirprwyon a'r swyddogion statudol. Nod yr adolygiad oedd gwella strwythur y pwyllgor, nad oedd wedi'i adolygu ers sawl blwyddyn a mynd i'r afael â nifer o bryderon eraill – roedd gan Sir y Fflint ymhlith y nifer fwyaf o bwyllgorau trosolwg a chraffu yng Nghymru, a nifer mwy o Aelodau ar y pwyllgorau hynny.

Roeddem angen sicrhau bod ein strwythur pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr un cywir i'r Cyngor yn 2020/21 a thu hwnt – gan gymryd i ystyriaeth bod yr adolygiad diwethaf ohono wedi'i gynnal yn 2014/15. Roedd yna gonsensws y dylai'r nifer o Aelodau ar rai pwyllgorau ostwng: yn achos pwyllgorau trosolwg a chraffu, o 15 i 12. Hefyd, cytunwyd i leihau'r nifer o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu o chwech i bump.

Yn 2015, o ganlyniad i adolygiad blaenorol o bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, roeddem wedi sefydlu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol. Roedd y pwyllgor yn ffactor sylweddol i drosglwyddo asedau yn ddiogel o'r Cyngor i'r gymuned ac i ddatblygu ein modelau darparu amgen. Gan fod y gwaith y cafodd ei sefydlu i'w wneud wedi'i gwblhau'n llwyddiannus, roedd yn briodol i'r pwyllgor ddod i ben o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor 2020.

Wrth symud ymlaen, mae gennym nawr pum pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Gyda'i gilydd, maent yn cynnwys holl swyddogaethau'r Cyngor. Y pwyllgorau hyn yw:

- Y Gymuned, Tai ac Asedau;
- Adnoddau Corfforaethol;
- Addysg, Ieuenctid a Diwylliant
- Yr Amgylchedd a'r Economi ac
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Roedd Cyfarfod Blynyddol 2020 wedi'i ohirio tan 9 Medi, oherwydd y Coronafeirws. Felly, gwnaethom gynnal rhai cyfarfodydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o'r strwythur blaenorol yn ystod mis Gorffennaf. Cyfarfod cyntaf y strwythur newydd oedd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ar 21 Medi.



## Y Broses “Galw i Mewn”

### **1. Y Trefniadau**

Mae'r rhesymau i alw penderfyniad i mewn i'w gweld ym mharagraff 16 o Reolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu o fewn Cyfansoddiad y Cyngor. Mae'r awdurdod cyfreithiol yn deillio o adran 21 (3) Deddf Llywodraeth Leol 2000.

Mae'r gallu i alw penderfyniad Cabinet i mewn yn bŵer sylweddol i aelodau anweithredol. Nid yw'n rhywbeth y dylid ei ystyried oni bai nad oes yna ddewis arall: os gorddefnyddir y pŵer, neu ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n cael ei ystyried yn ofer, collir ei arwyddocâd neu bwysigrwydd.

### **2. Penderfyniadau'r Cabinet**

Yn dilyn cyfarfod o'r Cabinet, mae cofnod o'r penderfyniadau a wnaed yn cael ei gyhoeddi o fewn deuddydd. Mae copïau ar gael yn Neuadd y Sir ac anfonir at holl Aelodau'r Cyngor Sir.

Mae'r cofnod penderfyniad yn nodi y daw'r penderfyniadau i rym, ac yna gweithredir ar ddiwedd pum diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad, oni bai ei fod yn cael ei alw i mewn.

### **3. Galw Penderfyniad i Mewn**

Os bydd y Prif Swyddog (Llywodraethu) neu Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn derbyn hysbysiad galw i mewn gan Gadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu neu o leiaf pedwar aelod o'r Cyngor, mae cyfarfod galw i mewn yn cael ei drefnu.

Naill ai mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd neu'r Hwyluswyr Trosolwg a Chraffu yn hysbysu'r sawl sy'n gwneud penderfyniad (yr Aelodau Cabinet a Phrif Swyddogion perthnasol) o'r galw i mewn, ac yna'n trefnu cyfarfod o'r pwyllgor priodol o fewn saith diwrnod gwaith o'r penderfyniad galw i mewn.

### **4. Y Cyfarfod Galw i Mewn**

Mae cyfarfodydd galw i mewn yn cael eu cynnal ar fyr rybudd (e.e. o fewn saith diwrnod gwaith o'r penderfyniad galw i mewn) ac yn gyffredinol yr unig eitem busnes ar y rhaglen. Fodd bynnag, o dro i dro mae'n hwylus i ystyried galw i mewn, mewn cyfarfod sydd eisoes wedi'i alw.

Mae yna weithdrefn a awgrymir ar gyfer delio gyda galw i mewn. Bwriedir i hyn wneud y cyfarfod mor syml a thryloyw â phosibl. Mae'r weithdrefn hon yn rhan o'r rhaglen ym mhob cyfarfod galw i mewn, a bydd y swyddog sy'n cynghori'r pwyllgor yn mynd â'r aelodau drwyddo yn ystod y cyfarfod.



## **5. Y Penderfyniad Galw i Mewn**

Ar ddiwedd cyfarfod galw i mewn, mae'n rhaid i'r pwyllgor wneud penderfyniad yn seiliedig ar un o'r pedwar dewis. Mae Dewisiadau 1 a 2 yn caniatáu i'r penderfyniad gael ei weithredu ar unwaith, Dewis 3 yw cyfeirio yn ôl i'r Cabinet ar gyfer ystyriaeth bellach a Dewis 4 yw i gyfeirio i'r Cyngor. Fodd bynnag, mae swyddogaethau gweithrediaeth o fewn cyfrifoldeb y Cabinet yn llwyr. Felly, gall y Cyngor ystyried y mater, ond nid newid y penderfyniad: gall ond argymhell i'r Cabinet bod y penderfyniad yn cael ei ailystyried.

## **6. Galw i mewn yn ystod 2020/21**

Yn ystod blwyddyn ddiwethaf y Cyngor, nid oedd unrhyw benderfyniadau Cabinet wedi eu galw i mewn.

Roeddem wedi gwneud newid i'r drefn galw i mewn, i sicrhau y gallai ddechrau yn ystod y cyfnod clo. Er mwyn galw penderfyniad Cabinet i mewn, yn hytrach na hysbysiad galw i mewn gan o leiaf pedwar aelod o'r Cyngor, dylai e-bost gael ei anfon drwy gyfeiriad e-bost Flintshire.gov.uk i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, yn nodi'r rheswm dros alw i mewn. Dylai'r llofnodwr cyntaf gynnwys y geiriau 'galw i mewn' fel y testun a dylai gopio'r llofnodwyr arfaethedig eraill. Yna dylai'r llofnodwyr hynny anfon e-bost at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, yn defnyddio eu cyfeiriad e-bost Sir y Fflint, yn dweud 'Rwy'n cymeradwyo galw i mewn y cofnod o Benderfyniad Rhif XX.'

Mae hyn yn sicrhau trywydd archwilio o lofnodwyr, yn ysgrifenedig, o'r galw i mewn a lofnodwyd yn electronig (ac o'u cyfeiriadau e-bost Sir y Fflint) gan bawb. Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn hysbysu'r sawl sy'n penderfynu am y galw i mewn ac yna'n trefnu cyfarfod o'r Pwyllgor o fewn saith diwrnod gwaith o'r penderfyniad i alw i mewn. (Fel arfer, y diwrnod gwaith olaf cyn Dydd Nadolig a'r tri diwrnod gwyliau nad ydynt yn gyhoeddus cyn y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ddim i'w cyfrif fel dyddiau gwaith).

## **7. Diwedd y cyfnod galw i mewn**

Pan mae'r cyfnod galw i mewn wedi dod i ben, mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn hysbysu Aelodau'r Cabinet, Cadeiryddion Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a swyddogion priodol.

**AELODAU'R PWYLLGOR**  
**Aelodau Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2020/21**

<p><b><u>Cymuned a Menter (wedi dod i ben Gorffennaf 2020)</u></b></p> <p><b>Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)</b>          Y Cynghorydd Sian Braun          Y Cynghorydd Helen Brown          Y Cynghorydd Dave Cox          Y Cynghorydd Jean Davies          Y Cynghorydd Ron Davies          Y Cynghorydd Rosetta Dolphin          Y Cynghorydd Mared Eastwood          Y Cynghorydd Ray Hughes          Y Cynghorydd Dennis Hutchinson          Y Cynghorydd Brian Lloyd          Y Cynghorydd Ted Palmer          Y Cynghorydd Kevin Rush          Y Cynghorydd Paul Shotton          Y Cynghorydd David Wisinger</p>	<p><b><u>Y Gymuned, Tai ac Asedau</u></b></p> <p><b>Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)</b>          Y Cynghorydd Helen Brown          Y Cynghorydd Geoff Collett          Y Cynghorydd Dave Cox          Y Cynghorydd Ron Davies          Y Cynghorydd Adele Davies-Cooke          Y Cynghorydd Mared Eastwood          Y Cynghorydd Veronica Gay          Y Cynghorydd Ray Hughes (Is-Gadeirydd)          Y Cynghorydd Dennis Hutchinson          Y Cynghorydd Brian Lloyd          Y Cynghorydd Kevin Rush</p>
<p><b><u>Adnoddau Corfforaethol</u></b></p> <p><b>Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)</b>          Y Cynghorydd Haydn Bateman          Y Cynghorydd Sean Bibby          Y Cynghorydd Geoff Collett          Y Cynghorydd Andy Dunbobbin          Y Cynghorydd Mared Eastwood          Y Cynghorydd Patrick Heesom          Y Cynghorydd Richard Jones          Y Cynghorydd Kevin Rush          Y Cynghorydd Paul Shotton          Y Cynghorydd Andy Williams          Y Cynghorydd Arnold Woolley</p>	
<p><b><u>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid (wedi dod i ben Medi 2020)</u></b></p> <p><b>Y Cynghorydd David Healey (Cadeirydd)</b>          Y Cynghorydd Janet Axworthy          Y Cynghorydd Sian Braun          Y Cynghorydd Geoff Collett          Y Cynghorydd Bob Connah          Y Cynghorydd Paul Cunningham          Y Cynghorydd Andy Dunbobbin          Y Cynghorydd Gladys Healey          Y Cynghorydd Kevin Hughes          Y Cynghorydd Tudor Jones</p>	<p><b><u>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant</u></b></p> <p><b>Y Cynghorydd David Healey (Cadeirydd)</b>          Y Cynghorydd Janet Axworthy          Y Cynghorydd Sian Braun          Y Cynghorydd Bob Connah (o Ragfyr 2020)          Y Cynghorydd Paul Cunningham          Y Cynghorydd Carol Ellis (o Tach-Rhag 2020)          Y Cynghorydd Gladys Healey          Y Cynghorydd Joe Johnson</p>

<p>Y Cynghorydd Dave Mackie Y Cynghorydd Ian Smith Y Cynghorydd Martin White Y Cynghorydd David Williams</p> <p><b>Aelodau Cyfetholedig:</b> Lynne Bartlett <b>David Hytch (Is-Gadeirydd)</b> Wendy White Rebecca Stark</p>	<p>Y Cynghorydd Tudor Jones Y Cynghorydd Dave Mackie Y Cynghorydd Ian Smith Y Cynghorydd Martin White Y Cynghorydd David Williams</p> <p><b>Aelodau Cyfetholedig:</b> Lynne Bartlett <b>David Hytch (Is-Gadeirydd)</b> Wendy White Rebecca Stark</p>
<p><b><u>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd (wedi dod i ben 13.7.20)</u></b></p> <p><b>Y Cynghorydd Patrick Heesom (Cadeirydd)</b> Y Cynghorydd Mike Allport Y Cynghorydd Sean Bibby Y Cynghorydd Chris Dolphin Y Cynghorydd Andy Dunbobbin <b>Y Cynghorydd David Evans (Is-Gadeirydd)</b> Y Cynghorydd Veronica Gay Y Cynghorydd George Hardcastle Y Cynghorydd Cindy Hinds Y Cynghorydd Ray Hughes Y Cynghorydd Dennis Hutchinson Y Cynghorydd Joe Johnson Y Cynghorydd Vicky Perfect Y Cynghorydd Paul Shotton Y Cynghorydd Owen Thomas</p>	<p><b><u>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi</u></b></p> <p><b>Y Cynghorydd Rosetta Dolphin (Cadeirydd)</b> Y Cynghorydd Sean Bibby Y Cynghorydd Chris Dolphin Y Cynghorydd David Evans (Is-Gadeirydd) Y Cynghorydd George Hardcastle Y Cynghorydd Patrick Heesom Y Cynghorydd Cindy Hinds Y Cynghorydd Kevin Hughes (o Hyd 2020 – Chwef 2021) Y Cynghorydd Dennis Hutchinson Y Cynghorydd Joe Johnson Y Cynghorydd Vicky Perfect Y Cynghorydd Paul Shotton Y Cynghorydd Owen Thomas</p>
<p><b><u>Iechyd a Gofal Cymdeithasol</u></b></p> <p>Y Cynghorydd Hilary McGuill (<b>Cadeirydd</b>) Y Cynghorydd Mike Allport Y Cynghorydd Marion Bateman (Medi 2022-) Y Cynghorydd Paul Cunningham Y Cynghorydd Jean Davies Y Cynghorydd Rob Davies (Mai i Hyd 2020) Y Cynghorydd Andy Dunbobbin (Mai i Hyd 2020) Y Cynghorydd Carol Ellis Y Cynghorydd Gladys Healey (Is-gadeirydd) Y Cynghorydd Cindy Hinds Y Cynghorydd Mike Lowe Y Cynghorydd David Mackie Y Cynghorydd Ian Smith (Mai – Hyd 2020) Y Cynghorydd Michelle Perfect Y Cynghorydd Martin White (Mai i Hyd 2020) Y Cynghorydd David Wisinger Y Cynghorydd David Williams (Mai i Hyd 2020)</p>	

## Testunau a ystyrir gan bob Pwyllgor

### **PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU, TAI AC ASEDAU**

#### **Dydd Gwener 25 Medi, 2020**

Penodi Cadeirydd  
Penodi Is-Gadeirydd  
Briffio Ynghylch Argyfwng  
Cylch Gorchwyl y Pwyllgor  
Strategaeth Adferiad

#### **Dydd Mercher, 4 Tachwedd 2020**

Briffio Ynghylch Argyfwng  
Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Olrhain Camau Gweithredu  
Cyllideb 2021/22 – Cam 1  
Diweddariad ar y Strategaeth Adfer  
Digartrefedd Cam 2 – Ymateb Covid-19  
Diweddariad ar yr Adolygiad o Dai Gwarchod

#### **Dydd Mercher, 16 Rhagfyr 2020**

Briffio Ynghylch Argyfwng  
Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Olrhain Camau Gweithredu  
Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol – Manteision Cymunedol  
Y Diweddarafr am Ddiwygio'r Gyfundrefn Les  
Incwm Rhent Tai  
Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol  
Diweddariad ar y Strategaeth Adfer  
Dangosyddion Perfformiad Canol Blwyddyn ar gyfer Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, Portffolio ac Adfer

#### **Dydd Mercher, 20 Ionawr 2021**

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Olrhain Camau Gweithredu  
Cynllun Busnes Ariannol 30 Blynedd y Cyfrif Refeniw Tai (HRA)  
Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y Llawlyfr Refeniw Tai Arfaethedig  
Diweddariad Strategaeth Tai  
Adroddiad am Wybodaeth Ddiweddarafr y Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (Sharp)  
Cynllun y Cyngor 2020/21  
Cynllun Busnes Cartrefi (Newydd) Gogledd Ddwyrain Cymru 2020/2049

#### **Dydd Mawrth, 23 Chwefror 2021**

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Olrhain Camau Gweithredu  
Y Gwasanaeth Atgyweirio Tai yn Caffael System Cofrestru Adnoddau Deinamig ac Adolygu Proffil Swydd yr Arweinydd Tîm

#### **Dydd Mercher, 10 Mawrth 2021**

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Olrhain Camau Gweithredu  
Adfywio'r Stoc Bresennol  
Adroddiad Diweddariad Digartrefedd

Diweddariad ar y Strategaeth Adfer

**DYDD MERCHER, 19 MAI 2021**

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Olrhain Camau Gweithredu

Glanhau ac Arlwyo NEWydd

## **PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**

**Dydd Llun, 28 Medi, 2020**

Penodi Cadeirydd

Penodi Is-Gadeirydd

Briffio Ynghylch Argyfwng

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

Strategaeth Adferiad

Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 (Mis 4)

Monitro Rhaglen Gyfalaf 2020/21 (Mis 4)

**Dydd Iau 15th Hydref, 2020**

Briffio Ynghylch Argyfwng

Diweddariad ar y Strategaeth Adfer

Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 (Mis 5)

Olrhain Gweithred

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol

**Dydd Llun, 2 Tachwedd 2020 Cyfarfod Arbennig**

CYLLIDEB 2021/22 – CAM 1

**Dydd Iau, 12 Tachwedd 2020**

Olrhain Gweithred

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol

Briffio Ynghylch Argyfwng

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Bargen Dwf Derfynol

Diweddariad ar y Strategaeth Adfer

Dangosyddion Perfformiad Canol Blwyddyn ar gyfer Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus,  
Portffolio ac Adfer

CYLLIDEB 2021/22 – CAM 1

Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 (Mis 6) a Monitro Rhaglen Gyfalaf 2020/21 (Mis 6)

Rhaglen Gyfalaf 2021/22–2023/24

Strategaeth Gyfalaf yn cynnwys Dangosyddion Darbodus 2021/22–2023/24

**Dydd Iau, 10 Rhagfyr 2020**

Olrhain Gweithred

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol

Briffio Ynghylch Argyfwng

Diweddariad ar y Strategaeth Adfer

Proses Ddatblygu Cynllun y Cyngor 2020/21

Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 (Mis 7)

Diweddariad ar Gronfa Bensïynau Clwyd

Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2019-20 a Chwynion yn erbyn Cyngor Sir y Fflint 2020-21

**Dydd Iau, 14 Ionawr 2021**

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol

Olrhain Gweithred

Trosolwg o Risgiau Agored o Gyfnod yr Argyfwng a Chysoni Cyllid Grant Argyfwng

Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 (Mis 8)

**Dydd Iau, 11 Chwefror 2021**

Olrhain Gweithred

Adroddiad Blynyddol Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol

Diweddariad ar y Strategaeth Adfer

Cynllun y Cyngor 2021/22

Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor 2021/22

Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 (Mis 9) a Monitro Rhaglen Gyfalaf 2020/21 (Mis 9)

Crynodeb Archwilio Blynyddol Sir y Fflint 2019/20

**Dydd Iau, 11 Mawrth 2021**

Olrhain Gweithred

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol

Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint – Adroddiad Blynyddol

Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 (Mis 10)

Adolygu'r Polisi Cwynion Corfforaethol

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A  
DIWYLLIANT**

**Dydd Iau 24 Medi 2020 2.00pm**

Penodi Cadeirydd

Penodi Is-Gadeirydd

Briffio Ynghylch Argyfwng (Ar lafar)

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

Strategaeth Adferiad

**Dydd Iau 5 Tachwedd 2020 2.00pm**

Briffio Ynghylch Argyfwng (Ar lafar)

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Olrhain Camau Gweithredu

Cyllideb 2021/22 – Cam 1

Balansau Cronfeydd Wrth Gefn Ysgolion y Flwyddyn sy'n Dod i Ben ar 31 Mawrth 2020 a

Phrotocol i Ysgolion ag Anawsterau Ariannol

Diweddariad ar y Strategaeth Adfer

Gwasanaethau Ieuencid

Adroddiad Cynnig Trosglwyddo Theatr Clwyd

**Dydd Iau, 17 Rhagfyr 2020 2.00pm**

Briffio Ynghylch Argyfwng (Ar lafar)

Dysgu Cyfunol  
Dysgu Oedolion yn y Gymuned  
Diweddariad ar y Strategaeth Adfer  
Dangosyddion Perfformiad Canol Blwyddyn ar gyfer Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus,  
Portffolio ac Adfer  
Aura: Cynllun Adfer Busnes

**Dydd Iau 28 Ionawr 2021 2.00pm**

Y diweddaraaf am Wella Ysgolion ac Arholiadau 2021  
Diweddariad Moderneiddio Ysgolion  
Gwersi Covid y mae Ysgolion wedi'u Dysgu ac Asesiadau Risg  
Cynllun y Cyngor 2020/21

**Dydd Iau 18 Mawrth 2021 2.00pm**

Y Wybodaeth Ddiweddaraaf am Drosoglwyddo Asedau Cymunedol  
Y Wybodaeth Ddiweddaraaf ar Gyllid y Cyngor ar gyfer Ysgolion  
Adroddiad Hunanwerthuso Gwasanaethau Addysg  
Rhaglen Ddigidol Hwb  
Presenoldeb mewn Ysgolion a Gwaharddiadau  
Diweddariad ar y Strategaeth Adfer

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD**

**Dydd Llun, 13 Gorffennaf, 2020**

Adnewyddu Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R  
ECONOMI**

**Dydd Llun, 21 Medi, 2020**

Penodi Cadeirydd  
Penodi Is-Gadeirydd  
Briffio Ynghylch Argyfwng  
Cylch Gorchwyl y Pwyllgor  
Strategaeth Adferiad (Portffolio Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi)  
Strategaeth Adferiad (Portffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant)

**Dydd Mawrth 13 Hydref, 2020**

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Orlhain Camau Gweithredu  
Briffio Ynghylch Argyfwng  
Trosolwg Adfywio  
Y Wybodaeth Ddiweddaraaf am Strategaeth Adferiad (Portffolio Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi)  
Y Wybodaeth Ddiweddaraaf ar Strategaeth Adferiad (Portffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant)



**Dydd Mawrth, 10 Tachwedd 2020**

Briffio Ynghylch Argyfwng

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Orlhain Camau Gweithredu

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Bargen Dwf Derfynol

Cyllideb 2021/22 – Cam 1

Strategaeth Adferiad (Portffolio Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi)

Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Strategaeth Adferiad (Portffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant)

Dangosyddion Perfformiad Canol Blwyddyn ar gyfer Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, Portffolio ac Adfer

**Dydd Mawrth, 8 Rhagfyr 2020**

Briffio Ynghylch Argyfwng

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Orlhain Camau Gweithredu

Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Gynllun Beicio Yr Wyddgrug i Frychdyn a Datblygu

Rhwydwaith Beicio Craidd y Sir

Strategaeth Adferiad (Portffolio Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi)

Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Strategaeth Adferiad (Portffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant)

Y wybodaeth ddiweddaraf ar Storfeydd Depo Alltami

Adborth ar Gynigion Llywodraeth Cymru i Gyflwyno Cydbwyllgorau Corfforaethol

**Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2021**

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Orlhain Camau Gweithredu

Ymateb Cyngor Sir y Fflint i Ymgynghoriad Strategaeth Drafnidiaeth LIC

**Dydd Mawrth, 9 Chwefror 2021**

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Orlhain Camau Gweithredu

Cynllun y Cyngor 2020/21

Trydaneiddio'r Fflyd

Gorfodaeth Cynllunio

**Dydd Mawrth, 9 Mawrth 2021**

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Orlhain Camau Gweithredu

Gwasanaeth Trên Lein y Gororau – Gwasanaethau Ychwanegol ac Effaith bosibl ar Arosfannau (Cyflwyniad)

Deunyddiau y gellir eu Hailgylchu ac Effaith y Pandemig ar y Niferoedd a Gwerthoedd Ailwerthu.

Adferiad Economaidd

Strategaeth Adferiad (Portffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant)

Strategaeth Adferiad (Portffolio Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi)

**Dydd Mercher, 12 Mai 2021**

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Orlhain Camau Gweithredu

Adfywio Canol Trefi

Mynediad at Berfformiad Tîm 2019/20 a 2020/21

Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Arolygon Clefyd Coed Ynn

Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd

Proses Ymgynghori Teithio Llesol

## **PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**

### **Dydd Iau, 16 Gorffennaf 2020**

Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cefnogaeth a Ddarperir i Gartrefi Gofal Sir y Fflint yn ystod Pandemig Covid-19

### **Dydd Mawrth 22 Medi 2020**

Penodi Cadeirydd  
Penodi Is-Gadeirydd  
Briffio Ynghylch Argyfwng  
Cylch Gorchwyl y Pwyllgor  
Strategaeth Adferiad  
Llythyr Adolygiad Perfformiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2019/20

### **Dydd Iau, 22 Hydref, 2020**

Briffio Ynghylch Argyfwng  
Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Orlhain Camau Gweithredu  
Diweddariad ar y Strategaeth Adfer  
Y wybodaeth ddiweddaraf am Project Search

### **Dydd Mercher, 11 Tachwedd 2020 (Arbennig)**

Cyllideb 2021/22 – Cam 1

### **Dydd Iau, 3 Rhagfyr 2020**

Briffio Ynghylch Argyfwng  
Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Orlhain Camau Gweithredu  
Dangosyddion Perfformiad Canol Blwyddyn ar gyfer Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus,  
Portffolio ac Adfer  
Adroddiad Blynyddol Diogelu Oedolion a Phlant gan gynnwys 'Gweithdrefnau Diogelu  
Newydd'  
Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Brosiect Gweddnewid Cymunedol  
Cefnogi'r Gweithlu Gwaith Cymdeithasol  
Adroddiad Blynyddol ar Weithdrefn Gwynion a Chanmoliaethau Gwasanaethau  
Cymdeithasol 2019-20.

### **Dydd Iau, 21 Ionawr 2021**

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Orlhain Camau Gweithredu  
Cynllun y Cyngor 2020/21  
Gofalwyr Ifanc – Contract Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru  
(GOGDdC)  
Y Wybodaeth Ddiweddaraf Marleyfield House  
Plas yr Ywen (Gofal Ychwanegol Treffynnon)

### **Dydd Iau, 4 Mawrth 2021**

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Orlhain Camau Gweithredu  
Mockingbird – y newyddion diweddaraf am y rhaglen  
Diweddariad Arosfa  
Strategaeth Dementia Gogledd Cymru a Strategaeth Leol Sir y Fflint  
Diweddariad ar y Strategaeth Adfer

## Cymorth Gan Swyddogion Trosolwg a Chraffu

Mae'r gefnogaeth mae Trosolwg a Chraffu yn ei derbyn gan swyddogion ar draws y Cyngor yn hanfodol i sicrhau ei fod yn rhedeg yn llyfn ac yn effeithiol.

Mae'r gefnogaeth mae Trosolwg a Chraffu yn ei derbyn gan swyddogion ar draws y Cyngor yn hanfodol i sicrhau ei fod yn rhedeg yn llyfn ac yn effeithiol.

### **CEFNOGAETH TROSOLWG A CHRAFFU**

Y Tîm Craffu yw:-

- ❖ Robert Robins – Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd  
(Cefnogi'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol).
- ❖ Margaret Parry-Jones – Hwylusydd Trosolwg a Chraffu  
(Yn cefnogi'r Pwyllgorau Amgylchedd ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn bennaf)
- ❖ Ceri Shotton – Hwylusydd Trosolwg a Chraffu  
(Yn cefnogi'r Pwyllgorau Cymuned a Menter ac Addysg a Ieuencid yn bennaf)
- ❖ Janet Kelly - Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd  
(Nawr yn cefnogi Trosolwg a Chraffu fel rhan o rôl ehangach o fewn y Tîm Gwasanaethau Democrataidd)

Mae'r tîm yn adnodd annibynnol sy'n cefnogi swyddogaeth craffu a'i Aelodau:

Cynghori ar gyfeiriad a datblygiad strategol y swyddogaeth graffu;

- Cydlynu'r rhaglenni gwaith ar gyfer y chwe Phwyllgor Trosolwg a Chraffu
- Cynghori, cefnogi a chynorthwyo i ddatblygu aelodau craffu:
- Cynnal ymchwil a dadansoddi gwybodaeth i helpu i lywio adolygiadau;
- Llunio adroddiadau a chyflwyniadau ar ran Aelodau;
- Cynnig cyngor a chyfarwyddyd annibynnol mewn perthynas â datblygu polisi a rheoli perfformiad;
- Gweithredu fel prif bwynt cyswllt i Aelodau, swyddogion, sefydliadau allanol a'r cyhoedd mewn perthynas â materion craffu; a hwyluso grwpiau tasg a gorffen